Grŵp Llandrillo Menai

# 2023 2024

## ADRODDIAD BLYNYDDOL
## ANNUAL REPORT

**CROESO I GRŴP LLANDRILLO MENAI**
**WELCOME TO GRŴP LLANDRILLO MENAI**

YouTube




Allwedd
Key

- Coleg Llandrillo
- Coleg Meirion-Dwyfor
- Busnes@LlandrilloMenai
- Coleg Menai
- COPA

# CYNNWYS / CONTENTS


2 Lleoliadau'r Campysau / Aelodau'r Bwrdd
3 Rhagair
4 Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad
5 Ein 5 Thema Allweddol
6 Thema Strategol 1: Cyfleoedd i Ddysgwyr a Llwyddiant Dysgwyr
10 Thema Strategol 2: Ein Lle yn y Gymuned
12 Thema Strategol 3: Defnyddio Sgiliau a Gwybodaeth i Ysgogi'r Economi
14 Thema Strategol 4: Bod ar Flaen y Gad yn y Byd Modern
16 Thema Strategol 5: Ein Rôl mewn Cymru Gynaliadwy
18 Edrych yn Ôl
24 Penawdau Ariannol

2 Campus Locations / Board Members
3 Foreword
4 Our Values and Behaviours
5 Our 5 Key Strategic Themes
6 Strategic Theme 1: Learner Opportunity and Success
10 Strategic Theme 2: Our Place in the Community
12 Strategic Theme 3: Driving the Economy through Skills and Knowledge
14 Strategic Theme 4: Leading the way in a Modern World
16 Strategic Theme 5: Our Role in a Sustainable Wales
18 In Review
24 Financial Headlines


# AELODAU'R BWRDD BOARD MEMBERS

**Dr Griff Jones**
(Cadeirydd / Chair)

**Alun Thomas**
(Is-gadeirydd / Vice-chair)

**Dr Roy Bichan**

**Andy Billcliff**

**Aled Jones-Griffith**

**Dilwyn Evans**

**Dr Gwyn Jones**

**Chris Morgans**

**Hedd Pugh**

**Marion Pryor**

**Prof. Carol Tully**

**Karen Vaughan Jones**
(Staff Addysgu / Teaching Staff)

**Brian Woosnam**
(Aelod nad yw'n Addysgu / Non-teaching)

**Bethan Williams Price**

**Siwan Iorwerth**

**Margaret Ogunbanwo**

**Victoria Painter**

**Rhys Morris**
(Llywydd Undeb y Myfyrwyr / Student Union President)

**Heather Spencer**
(Llywydd Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr / Higher Education Student Union President)

# RHAGAIR / FOREWORD

**Mae blwyddyn academaidd 2023-24 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall i Grŵp Llandrillo Menai mewn cyfnod lle bu nifer o newidiadau a datblygiadau sylweddol. Hoffem longyfarch ein dysgwyr a'n staff am eu canlyniadau rhagorol, er gwaethaf yr heriau y mae dysgwyr yn eu hwynebu yn y cyfnod ôl-Covid.**

Yn ystod eu harolygiadau o Addysg Bellach a darpariaeth Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Siroedd Conwy a Dinbych, amlygodd Estyn nifer o feysydd fel enghreifftiau o arfer da ac rydym yn falch o'r canlyniadau sy'n dangos ein hymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n gwasanaethu ein cymunedau.

Yn ystod y flwyddyn, bu dros 150 o ddysgwyr yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru a WorldSkills UK. Y casgliad o fedalau oedd y gorau erioed i Grŵp Llandrillo Menai ac arweiniodd hyn at gyrraedd brig siartiau medalau Cymru. Mae'r cyflawniadau hyn yn dyst i waith caled ac ymrwymiad y dysgwyr, ond hefyd i waith caled ac ymrwymiad y staff ymroddedig sy'n cefnogi ac yn mynd yr ail filltir i sicrhau llwyddiant dysgwyr.

Er gwaethaf gostyngiadau pellach mewn termau real yn incwm grant Llywodraeth Cymru, mae'r Grŵp yn parhau i gynnal sylfaen ariannol gref. Ad-dalwyd yr holl fenthyciadau cyfalaf dyledus erbyn diwedd Gorffennaf 2024 ac mae gan y Grŵp gronfeydd arian parod wrth gefn iach er gwaethaf blwyddyn ddwys o ddatblygiadau cyfalaf, yn fwyaf nodedig campws newydd Bangor sydd bellach wedi'i gwblhau. Er bod yr amodau ariannol yn parhau i fod yn heriol yn 2024-25, mae niferoedd da y dysgwyr.

Manteisiodd Grŵp Llandrillo Menai ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer 6 phrosiect a oedd yn ein galluogi i weithio gyda phartneriaid i fuddsoddi yn ein cymunedau, gan eu gwneud yn fwy gwydn a pharod ar gyfer

y dyfodol. Darparodd y prosiectau gymorth o tua £2.7m gan ganiatáu i ni weithio gyda dros 100 o sefydliadau ac i gefnogi dros 8,000 o ddysgwyr ac unigolion. Edrychwn ymlaen at gydweithio â'n partneriaid i gyflwyno achos cryf i Lywodraeth Cymru am bwysigrwydd cael mynediad i ffynonellau tebyg o gyllid, er mwyn gallu parhau â'r prosiectau hyn sy'n gwella ein cymunedau ac sy'n cyfrannu at hyfywedd economaidd y rhanbarth.

Yn ystod 2023-24 fe wnaethom hefyd ddatblygu a chytuno ar werthoedd newydd ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth gyda rhanddeiliaid, staff a dysgwyr rydym wedi lansio ein gwerthoedd a'n hymddygiad newydd sydd i'w gweld yma. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu hymgorffori yn ein polisïau a'n gweithdrefnau, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at y broses.

Wrth i ni fyfyrio ar flwyddyn academaidd 2023-24, hoffem ddiolch i Dafydd Evans, ein Prif Weithredwr blaenorol, am ei ymrwymiad a'i arweiniad dros gyfnod o 34 mlynedd, ac am adael Grŵp Llandrillo Menai mewn sefyllfa gref a gwydn ar ei ymddeoliad ym mis Gorffennaf 2024.

Gyda sefydlu Medr, corff rheoleiddio newydd y sector, rydym yn dechrau ar gyfnod newydd ac esblygol i Addysg Drydyddol yng Nghymru. Hyderwn fod y llwyddiannau a'r sefydlogrwydd y mae'r Grŵp wedi'u dangos yn ystod 2023-24 yn rhoi sicrwydd bod Grŵp Llandrillo Menai yn parhau mewn sefyllfa gref a chadarn i wynebu'r daith newydd hon, wrth barhau â'i genhadaeth o "Wella Dyfodol Pobl".

**The 2023-24 academic year has been another successful year for Grŵp Llandrillo Menai amid a number of significant changes and developments. We want to congratulate our learners and staff for their excellent results and outcomes, despite the challenges that learners face in the post-Covid era.**

During their inspections of Further Education and the Conwy and Denbighshire Adult and Community Learning (ACL) Partnership provision, Estyn spotlighted a number of areas as examples of good practice and we are proud of the outcomes which demonstrate our commitment to being an organisation which serves our communities.

During the year, over 150 learners competed in the coveted Skills Competition Wales and WorldSkills UK. The medal haul was the best ever for Grŵp Llandrillo Menai which led to us topping the medal charts throughout Wales. These achievements are testament to the hard work and commitment of the learners, but also that of the dedicated staff who support and go the extra mile to ensure learner success.

Despite further real-term reductions in the Welsh Government's grant income, the Grŵp continues to maintain a strong financial base. All outstanding capital loans were repaid by the end of July 2024 and the Grŵp enjoys healthy cash reserves despite an intensive year of capital developments, most notably the new Bangor Campus which has now been completed. Although financial conditions remain challenging in 2024-25, strong learner numbers and the development of the Grŵp's campuses and facilities provide a strong platform for growth for future years.

Grŵp Llandrillo Menai took advantage of the Shared Prosperity Fund and successfully secured funding for 6 projects which enabled us to work with partners to invest in our communities, making them more resilient and prepared for the future. The projects delivered support in the region of £2.7m and allowed us to work with over 100 organisations and to support over 8,000 learners and individuals. We look forward to collaborating with our partners to strongly advocate to the Welsh Government the importance of accessing similar sources of funding, to continue with these projects that improve our communities and contribute to the economic viability of the region.

During 2023-24 we also developed and agreed new values for Grŵp Llandrillo Menai. Following extensive consultation with stakeholders, staff and learners we have launched our new values and behaviours which can be seen here. These values are being incorporated into our policies and procedures, and we are grateful to all who contributed to the process.

As we reflect on the 2023-24 academic year, we would like to thank our previous Chief Executive Officer, Dafydd Evans, for his commitment and leadership over 34 years, and for leaving Grŵp Llandrillo Menai in a strong and resilient position before he retired in July 2024.

As we now embark on a new period and an evolving climate for Tertiary Education in Wales with the creation of Medr, the new sector regulatory body, we trust that the successes and stability that the Grŵp has demonstrated during 2023-24 reassures readers that Grŵp Llandrillo Menai remains in a very strong and robust position to face this new journey, whilst continuing with its mission of "Improving People's Futures".



**Aled Jones-Griffith**
Prif Weithredwr
Chief Executive Officer





**Dr Griff Jones**
Cadeirydd
Chair



Grŵp Llandrillo Menai

# Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad
# Our Values and Behaviours

### CYDRADDOLDEB
- Byddaf yn gwerthfawrogi ymdrechion pobl eraill
- Byddaf yn parchu iaith a diwylliant Cymru
- Byddaf yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a chynhwysiant

### YMDDIRIEDAETH
- Byddaf yn gwrando ar eraill
- Byddaf yn rhoi rhyddid i eraill wneud eu dewisiadau eu hunain
- Byddaf yn agored gydag eraill

### TEGWCH
- Byddaf yn trin pawb yn ddiduedd
- Byddaf yn ystyried anghenion pobl eraill
- Byddaf yn dangos dealltwriaeth tuag at eraill

### GONESTRWYDD
- Byddaf yn dweud y gwir
- Byddaf yn atebol
- Byddaf yn agored

### UCHELGAIS
- Byddaf yn anelu at y safonau uchaf
- Byddaf yn manteisio'n llawn ar bob cyfle
- Rwyf yn agored i syniadau newydd

Yn greiddiol i'n gwerthoedd...

**PARCH**

**RESPECT**

...is core to our values

### EQUALITY
- I will value the efforts of others
- I will respect the language and culture of Wales
- I will promote and celebrate diversity and inclusion

### TRUST
- I will listen to others
- I will give autonomy to others
- I will be open with others

### FAIRNESS
- I will treat everyone impartially
- I will accommodate the needs of others
- I will be understanding of others

### HONESTY
- I will be truthful
- I will be accountable
- I will be transparent

### AMBITION
- I will aspire to the highest standards
- I will take full advantage of all opportunities offered
- I am open to new ideas

# EIN 5 THEMA ALLWEDDOL
# OUR 5 KEY STRATEGIC THEMES

**DARLLENWCH EIN CYNLLUN STRATEGOL LLAWN YMA**
**READ OUR FULL STRATEGIC PLAN HERE**



THEMA STRATEGOL | STRATEGIC THEME

# CYFLEOEDD I DDYSGWYR A LLWYDDIANT DYSGWYR
# LEARNER OPPORTUNITY AND SUCCESS

## Cyn-fyfyriwr Gradd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gwireddu Breuddwyd drwy agor Meithrinfa Plant

Mae Daloni Owen, cyn-fyfyriwr Gradd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngholeg MeirionDwyfor wedi agor meithrinfa i blant ym Mhorthmadog, ei thref enedigol.

Cwblhaodd Daloni ei hastudiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 ar gampws Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau yn 2016, gan yna symud ymlaen i astudio Gradd Sylfaen (FdA) mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yna, dechreuodd ei chwrs gradd BA (Anrh) mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cyn cael ei merch yn ystod ail flwyddyn y cwrs.

## Former Health and Social Degree Student Transforms Dream into Reality By Opening Children's Nursery

Daloni Owen, a past Health and Social Degree student from Coleg Meirion-Dwyfor opened a children's nursery in her hometown of Porthmadog.

Daloni completed her Level 3 Health and Social Care studies at Coleg Meirion-Dwyfor's, Dolgellau campus in 2016, and then progressed on to study FdA Health and Social Care.

She then began her BA (Hons) in Health and Social Care, and had her daughter during the second year of the Degree.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG






ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Y flwyddyn orau erioed i Grŵp Llandrillo Menai yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru

Enillodd dysgwyr a phrentisiaid gyfanswm anhygoel o 43 medal yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru.

Dyma'r nifer fwyaf o fedalau erioed i Grŵp Llandrillo Menai, a mwy o fedalau nag unrhyw goleg arall o Gymru.

Roedd 11 o'r dysgwyr llwyddiannus wedi ennill medal aur mewn categorïau oedd yn cynnwys Turnio CNC, Roboteg Ddiwydiannol, Gofal Plant a Gwasanaeth i Gwsmeriaid.

## Record year for Grŵp Llandrillo Menai at Skills Competition Wales

Learners and apprentices won an outstanding 43 medals at the Skills Competition Wales award ceremony.

This was more than any other college in Wales, and more than the college group has ever won before.

Among the successful learners were 11 Gold medallists in categories including CNC Turning, Industrial Robotics, Childcare and Customer Service.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG




## Coleg Menai a Chlwb Pêl-droed Tref Caernarfon yn Gweithio gyda'i gilydd i Feithrin Talentau Lleol

Yn sgil y bartneriaeth arloesol hon bydd chwaraewyr Dan 16, Dan 19 a Thîm Cyntaf CPTC yn ymweld yn rheolaidd bob chwech i wyth wythnos â Chanolfan Chwaraeon Coleg Menai. Costiodd y ganolfan hon £8 miliwn i'w chodi ac mae'n llawn cyfleusterau o'r radd flaenaf.

Yn ystod yr ymweliadau hyn, bydd y chwaraewyr yn cymryd rhan mewn asesiadau ffitrwydd a sesiynau dysgu dan arweiniad darlithwyr Chwaraeon profiadol Coleg Menai.

Bydd chwaraewyr dan 16 a 19 oed Academi CPTC yn gallu manteisio hefyd ar gyngor gyrfaol gan dîm Gwasanaethau i Ddysgwyr y coleg, ac o fodloni'r gofynion academaidd ar gyfer eu dewis gwrs byddant yn cael gwarant o le yn y coleg.

## Coleg Menai Partners with Caernarfon Town Football Club to Foster Local Talent

This ground-breaking partnership will see CTFC's Under 16s, Under 19s, and First Team players making regular visits to Coleg Menai's state-of-the-art £8 million sports hall, known as 'Canolfan Chwaraeon,' every six to eight weeks.

During these visits, the players will engage in fitness assessments and attend classroom sessions, guided by the seasoned Sports lecturers of Coleg Menai.

CTFC Under 16s and 19s Academy players will also benefit from careers advice provided by the college's Learner Services, and will also be offered a guaranteed college place, should they meet the academic requirements for their chosen course.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Cyn-fyfyriwr cyfryngau yn cael swyddi ar Top Gear a Carpool Karaoke

Astudiodd Michael Kitchin gwrs Gradd Sylfaen Lefel 4 mewn Cynhyrchu'r Cyfryngau Darlledu rhwng 2015 a 2016.

Ers hynny, mae'r gŵr 29 oed o Ddyserth wedi mynd ymlaen i ddilyn gyrfa fel dyn camera arbenigol ar raglenni poblogaidd fel Carpool Karaoke, A League of Their Own ac Ant & Dec's Saturday Night Takeaway.

## Former media student lands Top Gear and Carpool Karaoke jobs

Former Coleg Llandrillo student Michael Kitchin studied a Level 4 Foundation Degree in Broadcast Media Production from 2015 to 2016.

Since then, the 29-year-old from Dyserth has forged a career as a specialist camera operator, working on hit TV shows such as Carpool Karaoke, A League of Their Own and Ant & Dec's Saturday Night Takeaway.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG




## Dychwelyd i'r coleg yn trawsnewid bywyd Gemma

Penderfynodd Gemma, o Ddyffryn Ardudwy, ei bod yn amser i fynd yn ôl i'r coleg pan orffennodd ei phlentyn ieuengaf yr ysgol gynradd.

Cofrestrodd ar y cwrs BA (Anrh) mewn Rheolaeth Busnes ar gampws Dolgellau yn 2017, ac arhosodd yn y coleg i ddilyn cwrs TAR. Bellach mae'n gweithio fel darlithydd rhan-amser i'r coleg, tra hefyd yn rhedeg ei busnes rheoli eiddo ei hun.

## Returning to college transformed my life says Gemma

Gemma, from Dyffryn Ardudwy, decided the time was right to go back to college when her youngest child finished primary school.

She enrolled on the BA (Hons) in Business Management at the Dolgellau campus in 2017, and then stayed at college to study a PGCE. Now she works as a part-time lecturer for the college, while also running her own property management business.

# DATA LLWYDDIANT MYFYRWYR

# STUDENT SUCCESS DATA



**Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i Grŵp Llandrillo Menai, gyda llawer mwy o ddysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau o gymharu â'r llynedd.**

**2023/24 has been a successful year for Grŵp Llandrillo Menai, with many more learners achieving their qualification compared to last year.**

---

Mae'r canlyniadau Addysg Bellach yn dda iawn gyda 94% o'r dysgwyr yn ennill eu prif gymwysterau galwedigaethol, sef cynnydd o 1% ers 2022/23. Rydym wedi gweld cynnydd o 6% yn nifer y dysgwyr a gafodd raddau A* - C yn eu harholiadau Lefel A, sef 1% yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol.

Further Education results are very good with 94% of learners attaining their main vocational qualifications, an increase of 1% since 2022/23. We have seen a 6% increase in the number of learners who achieved 3 A Levels at grades A* - C, 1% above the national comparator.

**94%**

---

Mae cyfraddau cyrhaeddiad rhaglenni Addysg Uwch wedi cynyddu 2% i 97%, a chwblhaodd 81% o'r dysgwyr eu cymwysterau.

Higher Education attainment rates have increased by 2% to 97%, and 81% of learners completed their qualifications.

**97%**

---

Cynyddodd cyfraddau cwblhau dysgwyr ar gyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned o 2% i 95% ac mae hyn yn rhagorol.

Adult and Community Learner completion rates have further increased by 2% to 95% which is excellent.

**95%**

---

Mae deilliannau Dysgu Seiliedig ar Waith 5% yn is, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn neilliannau Prentisiaethau Lefel 3.

Work-based learning outcomes have decreased by 5%, due mainly to a decrease in outcomes in Level 3 Apprenticeships.

---

Mae'r gwelliant yng nghanlyniadau AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn adlewyrchu canlyniadau cadarnhaol Arolygiadau Estyn yn 2024.

Our improved FE and ACL results reflect the positive outcomes of our Estyn Inspections in 2024.

---

Rydym yn hyderus iawn y bydd y camau a gymerwyd yn arwain at gynnydd yn nifer y prentisiaid dysgu seiliedig ar waith a'r dysgwyr Addysg Uwch a fydd yn cwblhau eu cymwysterau yn 2024/25.

We are very confident that the action taken will see an increase in the number of Work-based Level 3 apprentices and Higher Education learners completing their qualifications in 2024/25.

| AB - PRIF GYMWYSTERAU<br>FE MAIN QUALIFICATIONS | CWBLHAU<br>COMPLETION* | CYRHAEDDIAD<br>ATTAINMENT* |
|---|---|---|
| 21 / 22 Lefel A / A Level | 96% | 95% |
| 22 / 23 Lefel A / A Level | 96% | 97% |
| 21 / 22 Galwedigaethol / Vocational | 87% | 88% |
| 22 / 23 Galwedigaethol / Vocational | 87% | 93% |
| 23 / 24 Galwedigaethol / Vocational | 87% | 94% |

* Mae canlyniadau Prif Gymwysterau Galwedigaethol AB 2021/22 a 2022/23 wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodoleg newydd Llywodraeth Cymru felly nid oes modd eu cymharu â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol. / *2021/22 & 2022/23 FE Main Vocational results have been calculated using the new Welsh Government methodology which are not comparable to previous years results.

| POB CYMHWYSTER AU<br>HE ALL QUALIFICATIONS | CWBLHAU<br>COMPLETION | CYRHAEDDIAD<br>ATTAINMENT |
|---|---|---|
| 20 / 21 | 82% | 96% |
| 21 / 22 | 83% | 96% |
| 22 / 23 | 85% | 95% |
| 23 / 24 | 81% | 97% |

| DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED<br>ADULT COMMUNITY LEARNING | CWBLHAU<br>COMPLETION | CYRHAEDDIAD<br>ATTAINMENT |
|---|---|---|
| 20 / 21 | 94% | 95% |
| 21 / 22 | 91% | 96% |
| 22 / 23 | 93% | 95% |
| 23 / 24 | 95% | 93% |

Cwblhau yw canran y dysgwyr a gwblhaodd eu cymhwyster. Cyrhaeddiad yw canran y dysgwyr sy'n llwyddo i ennill eu cymhwyster. / Completion is the percentage of learners who complete their qualification. Attainment is the percentage of learners who attain their qualification.

| DYSGU SEILIEDIG AR WAITH<br>WORK-BASED LEARNING | Y CYFAN<br>ALL |
|---|---|
| 20 / 21 | 79% |
| 21 / 22 | 66%*** |
| 22 / 23 | 76% |
| 23 / 24 | 71% |

*** Y tarfu ar ddysgu a achoswyd gan Covid-19 wedi effeithio ar gyfraddau cyflawni.
*** Achievement rates affected by disruption to learning caused by Covid-19.

## GRŴP LLANDRILLO MENAI YN CAEL ADBORTH RHAGOROL GAN EI DDYSGWYR

Grŵp Llandrillo Menai sydd ar y brig yng Nghymru am foddhad myfyrwyr ag ansawdd y ddarpariaeth Addysg Uwch ar ôl cael sgôr o 89% yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) diweddaraf. Roedd y dysgwyr yn hynod gadarnhaol am eu cyrsiau ac yn sgorio ansawdd y Ddarpariaeth Addysg Uwch 9% yn uwch na chyfartaledd y sector yn y Deyrnas Unedig. Mae adborth y dysgwyr ar ansawdd y dysgu a'r addysgu a'r gefnogaeth academaidd 7% a 10% yn uwch na meincnod y Deyrnas Unedig.

Yn ein harolwg Addysg Bellach roedd 98% o'r dysgwyr o'r farn bod y coleg yn dda neu'n dda iawn, a 99% yn cytuno bod ansawdd y dysgu a'r addysgu'n dda neu'n dda iawn.

Mae canlyniadau'r arolwg yn hynod galonogol ac yn dangos bod GLlM yn cynnig darpariaeth dysgu ac addysgu o ansawdd uchel sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

## EXCELLENT FEEDBACK FROM LEARNERS ABOUT GRŴP LLANDRILLO MENAI

Grŵp Llandrillo Menai's student satisfaction with the quality of its Higher Education provision has been scored at 89% in the latest national Student Survey (NSS )- ranking the college as the top provider in Wales. Learners were extremely positive about their course and rated the quality of Higher Education Provision 9% points above the UK sector average. Feedback from learners about the quality of teaching and learning and academic support are 7% points and 10% above the UK benchmark respectively.

Our Further Education survey showed that 98% of learners rated the college as good/very good, and 99% agreed that the quality of teaching and learning was good/very good.

The extremely positive survey results show that GLLM continues to deliver high-quality teaching and learning, which enables learners to achieve their potential.

# EIN LLE YN Y GYMUNED
# OUR PLACE IN THE COMMUNITY

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG




## Myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Camu i'r Sector Gofal

Mae 'Camau i'r maes Gofal', partneriaeth rhwng Coleg Menai a Chyngor Sir Ynys Môn yn parhau i fynd o nerth i nerth wrth i fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael cyfle i dreulio wythnos gyfan ar brofiad gwaith gyda staff Gofal Cymdeithasol cymwysedig yr Awdurdod Lleol.

Pan fydd myfyrwyr wedi llwyddo i fynd ar brofiad gwaith i un o'r lleoliadau hyn, gallant gael eu rhoi ar lwybr carlam i wneud gwaith llanw ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau a/neu ddechrau chwilio am waith gyda'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Health and Social Care Students Get Stepping Stone into Industry

The 'Steps to Care' programme, a partnership between Coleg Menai and Isle of Anglesey County Council, continues to grow from strength to strength. Through the programme, Health and Social care students get the opportunity to undertake a full week's worth of work experience with qualified Social Care staff at the Local Authority.

When learners are successful in gaining a work placement within one of these settings, they can then be fast-tracked for relief work when they complete their studies and/or begin looking for work with the Council Health and Social Care services.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

## Coleg Llandrillo yn cynnal twrnamaint pêl-droed llwyddiannus i 400 o blant gyda'r Urdd

Bu timau o 38 o ysgolion yn cystadlu yng nghystadleuaeth flynyddol ysgolion cynradd Urdd Conwy ar gaeau 3G campws Llandrillo-yn-Rhos, gyda myfyrwyr chwaraeon Coleg Llandrillo yn helpu i wneud y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol.

Gwnaeth dysgwyr sydd ar gyrsiau Lefel 3 Gwyddor Chwaraeon, Perfformiad a Rhagoriaeth a Hyfforddi Chwaraeon helpu i ddyfarnu a chadw amser, yn ogystal â helpu i drefnu timau i sicrhau bod y digwyddiad yn rhedeg yn esmwyth.



## Coleg Llandrillo hosts successful Urdd football tournament for 400 children

Teams from 38 schools competed in the annual Urdd Conwy primary school competition on the 3G pitches at the Rhos-on-Sea campus, with Coleg Llandrillo sport students helping to make the event a huge success.

Learners from the Level 3 Sports Science, Performance and Excellence and Sports Coaching courses were involved in refereeing and timekeeping, as well as helping to organise teams to ensure the smooth running of the event.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Potensial
Dysgu Gydol Oes
Lifelong Learning

## Lansio Brand Dysgu Oedolion Newydd Grŵp Llandrillo Menai

Gan weithredu ar draws y pedair sir, Conwy, Dinbych, Gwynedd a Môn, mae Potensial yn cynnig ystod eang o gyrsiau i oedolion ddatblygu sgiliau newydd, dychwelyd i ddysgu, cael gwybodaeth newydd am bwnc sy'n ddiddordeb iddynt, a/neu eu helpu i baratoi ar gyfer dysgu pellach neu gyflogaeth.

Trwy Potensial, gellir cael mynediad at gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, o gyrsiau lefel mynediad i gymwysterau proffesiynol sy'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog lle bynnag y bo modd ac sy'n hygyrch i bob dysgwr. Mae cyrsiau ar gael i ddysgwyr ar safleoedd y coleg, neu mewn lleoliadau cymunedol fel canolfannau cymdeithasol a llyfrgelloedd.

## Grŵp Llandrillo Menai Launches New Brand for Adult Learning

Operating across the four counties of Conwy, Denbighshire, Gwynedd and Anglesey, Potensial offers a wide range of courses for adult learners to develop new skills; return to learning; gain new knowledge in a subject of interest, and/or help them prepare for further learning or employment.

Through Potensial, formal and informal learning opportunities can be accessed, from entry-level courses to professional qualifications, which are accessible to all learners, and delivered bilingually where possible.

## Staff y Grŵp yn helpu i godi £1k i Shelter Cymru yng ngêm Wrecsam

Gan roi o'u hamser dim ond dau ddiwrnod cyn y Nadolig, fe wnaethon nhw godi £1,312.07 mewn casgliadau bwced ar gatiau'r stadiwm enwog.

Mae Shelter Cymru, elusen ddewisedig Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24, yn helpu miloedd o bobl ledled Cymru bob blwyddyn sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng tai.

## Grŵp staff help raise £1k for Shelter Cymru at Wrexham game

Giving up their time just two days before Christmas, they raised £1,312.07 from bucket collections at the turnstiles of the famous stadium.

Shelter Cymru, Grŵp Llandrillo Menai's chosen charity for the 2023-24 academic year, helps thousands of people each year across Wales who are affected by the housing emergency.




ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Coleg Glynllifon yn Dathlu ei Ben-blwydd yn 70 oed

Roedd y dathliadau'n rhan o Ddiwrnod Gwobrwyo Blynyddol y coleg a daeth dros 500 o ddysgwyr, eu teuluoedd a staff ynghyd i nodi'r achlysur arbennig.

Ers agor ar 22 Mai 1954, mae Coleg Glynllifon wedi bod ar flaen y gad ym myd addysg amaethyddol, ac mae nifer dirifedi o'i ddysgwyr wedi mynd ymlaen i gael effaith gadarnhaol yn eu cymunedau ar draws gogledd Cymru a thu hwnt.

## Coleg Glynllifon Celebrates 70 years

Celebrations were held at Coleg Glynllifon's annual Prize Day Ceremony, where over 500 were in attendance; learners, their families, and staff came together to mark the tremendous anniversary.

Since its opening on May 22nd 1954, Coleg Glynllifon has been at the forefront of agricultural education, shaping the futures of countless learners who have gone on to make a positive impact in their communities across north Wales and beyond.

# DEFNYDDIO SGILIAU A GWYBODAETH I YSGOGI'R ECONOMI
# DRIVING THE ECONOMY THROUGH SKILLS AND KNOWLEDGE

## Jacob yn dylunio cabanau peilot y dyfodol

Dilynodd Dr Jacob Green gwrs Diploma Estynedig Lefel 3 BTEC mewn Chwaraeon (Perfformiad a Rhagoriaeth) yng Ngholeg Llandrillo rhwng 2011 a 2013.

Enillodd dair gradd rhagoriaeth ar y cwrs. Deng mlynedd yn ddiweddarach, mae'n gweithio fel Uwch Beiriannydd Awyrofod - Ffactorau Dynol, gyda BAE Systems, ac yn dylunio system caban peilot ar gyfer awyrennau jet sy'n gwneud y gorau o berfformiad dynol.

## Jacob designing the fast-jet cockpit of the future

Dr Jacob Greene studied a BTEC Level 3 Extended Diploma in Sport (Performance and Excellence) at Coleg Llandrillo from 2011-2013, achieving a triple distinction.

Ten years later, he works as a Senior Aerospace Human Factors Engineer for BAE systems, designing a fast-jet cockpit system that optimises human performance.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG





ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

## Cyn-fyfyriwr yn dychwelyd i Goleg Menai fel darlithydd

Mae Eva Voma, cyn-fyfyrwraig o Goleg Menai sydd wedi ennill nifer o wobrau, wedi dychwelyd i'r coleg fel darlithydd peirianneg.

Dechreuodd Eva, 21 oed o Fangor, ddilyn y cwrs Diploma lefel 3 mewn Peirianneg yng Ngholeg Menai yn 2018 cyn llamu ymlaen i ddilyn cwrs Tystysgrif Cenedlaethol Uwch wedi i'w gwaith caled a'i hagwedd wneud argraff ar ei darlithwyr.

Aeth ymlaen i ddilyn cwrs prentisiaeth gradd gyda'r cwmni gweithgynhyrchu ISC a graddio eleni gyda gradd dosbarth cyntaf BEng mewn Systemau Mecanyddol Uwch o Brifysgol Bangor.

Mae hi'n canolbwyntio rŵan ar drosglwyddo ei gwybodaeth ac ar ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr yng Ngholeg Menai.

## WorldSkills finalist Eva returns to Coleg Menai as lecturer

Eva Voma, a multiple award-winning former Coleg Menai student, has returned to the college as an engineering lecturer.

The 21-year-old from Bangor started the Level 3 Diploma in Engineering at Coleg Menai back in 2018, and was fast-tracked to the Higher National Certificate after impressing lecturers.

After progressing to a degree apprenticeship with the manufacturing company ISC, Eva graduated last summer with a 1st class BEng in Applied Mechanical Systems.

Now, her focus is passing on her knowledge and inspiring the next generation of engineers at Coleg Menai.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Coleg Llandrillo a Betsi Cadwaladr yn dathlu dysgwyr Ymarfer Gofal Iechyd

Enillodd dros 100 o weithwyr cymorth gofal iechyd Dystysgrif Addysg Uwch Lefel 4 mewn Ymarfer Gofal Iechyd ar ôl blwyddyn o ddod i Goleg Llandrillo un diwrnod yr wythnos, gyda chefnogaeth eu cyflogwr gofal iechyd.

Mae'r rhaglen yn datblygu lefelau gwybodaeth a sgiliau sy'n golygu y gall gweithwyr cefnogi gofal iechyd wneud cais am lu o swyddi amrywiol sy'n ychwanegu at eu cyfrifoldebau.

## Coleg Llandrillo and Betsi Cadwaladr celebrate Healthcare Practice HE learners

Over 100 healthcare support workers gained the Level 4 Certificate in Higher Education in Healthcare Practice following secondment to Coleg Llandrillo for one day per week, over one year, by their healthcare employer.

The programme develops higher-level knowledge and skills, which enables the healthcare support workers to apply for increasing numbers of roles that extend their responsibilities.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

## Cydnabod y Bartneriaeth Rhwng Busnes@LlandrilloMenai a Chwmni Babcock mewn Gwobrau Cenedlaethol

Mae partneriaeth strategol rhwng y darparwr hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith arbenigol Busnes@LlandrilloMenai a Babcock International Group wedi'i chydnabod yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd yng Nghasnewydd.

Ers lansio'r bartneriaeth yn 2016, gall myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu cymhwyster Lefel 3 mewn Peirianneg Awyrennau gyda Grŵp Llandrillo Menai wneud cais am le ar Raglen Brentisiaeth Peirianneg Awyrennau Babcock. Bob blwyddyn, mae'r cwmni'n recriwtio rhwng chwech ac wyth prentis Peirianneg Awyrennau.



## Busnes@LlandrilloMenai Babcock Partnership Recognised in National Finals

A strategic partnership between specialist work-based learning training provider Busnes@LlandrilloMenai and Babcock International Group (Babcock) was recognised at the Welsh Government's Apprenticeship Awards Wales held in Newport.

Since the partnership launched in 2016, students that have completed their level 3 Aeronautical Engineering qualifications with Grŵp Llandrillo Menai can apply for a coveted place on Babcock's Aeronautical Engineering Apprenticeship Programme. Each year, the company recruits between 6 – 8 aeronautical Engineering apprentices.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Hybu'r sgiliau y mae galw mawr amdanynt yng ngogledd a chanolbarth Cymru

Mae SP Energy Networks a'r darparwr hyfforddiant arbenigol Busnes@LlandrilloMenai wedi ffurfio partneriaeth er mwyn darparu sgiliau y mae mawr alw amdanynt i ddarpar weithwyr y sector ynni yng ngogledd a chanolbarth Cymru.

Ar y cyd, mae'r cwmnïau'n cynnal cwrs newydd i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar hyfforddeion i weithio ar linellau trydan uwchben ac i gael y profiad angenrheidiol i'w helpu i ymgeisio am swyddi yn yr amrywiol fusnesau yng ngogledd a chanolbarth Cymru sy'n cefnogi SP Energy Networks ac yn darparu gwasanaethau'n gysylltiedig ag ynni.

## Sought after skills boost for North and Mid Wales

SP Energy Networks and specialist training provider Busnes@LlandrilloMenai have partnered up to deliver sought-after skills to would-be energy-sector recruits across North and Mid Wales.

The companies are jointly running a new overhead line training course which will see trainees gain experience needed to work on the electricity network and help them apply for roles across a range of businesses in North and Mid-Wales supporting SP Energy Networks and delivering energy-related services.

# BOD AR FLAEN Y GAD YN Y BYD MODERN
# LEADING THE WAY IN A MODERN WORLD

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Canolfan Beirianneg newydd Coleg Llandrillo yn y Rhyl yn Croesawu Myfyrwyr

Mae'r Ganolfan yn gyfleuster tri llawr o'r radd flaenaf sy'n ymestyn dros 3000m² ac yn cynnwys gwerth dros £2m o'r offer hyfforddi arbenigol diweddaraf. O roboteg a pheiriannau prototeipio cyflym i beiriannau torri metel diwydiannol mawr a reolir gan gyfrifiaduron, mae'r ganolfan wedi'i chynllunio i ddarparu profiadau dysgu na ellir eu curo.

Bwriad y datblygiad, a ariennir ar y cyd gan 'Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy' Llywodraeth Cymru a Grŵp Llandrillo Menai, yw rhoi i drigolion yr ardal y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael gyrfaoedd llewyrchus ym maes peirianneg, ac mae hyn yn cynnwys y diwydiant ynni adnewyddadwy.

## Coleg Llandrillo's Rhyl Engineering Centre Welcomes Students to New State-of-the-Art Facility

The Centre is a state-of-the-art, three-floor facility spanning 3000m², featuring a comprehensive range of highly specialised training equipment valued at over £2 million. From robotics and rapid prototyping to large industrial-scale metal-cutting CNC machines, the facility is equipped to offer a world-class learning experience.

Funded by the Welsh Government's Sustainable Communities for Learning Programme and Grŵp Llandrillo Menai, this multi-million development aims to equip people in the region with the skills required for prosperous careers within the field of engineering, including in the growing renewable energy industry.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

## Coleg Glynllifon yn treialu tractor robotig

Mae Coleg Glynllifon yn torri tir newydd yn y diwydiant amaeth wrth iddo dreialu'r tractor cwbl awtonomaidd cyntaf sydd ar gael yn fasnachol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r AgBot wedi cael ei brynu gan AMRC Cymru, ar ôl i gwmni technoleg amaethyddol AgXeed ei ddatblygu fel tractor llai, ysgafnach a mwy effeithlon sy'n gallu rhedeg yn ddi-dor a heb oruchwyliaeth am hyd at 23 awr.

## Coleg Glynllifon trialling robot tractor

Coleg Glynllifon is breaking new ground in the agriculture industry as it trials the UK's first commercially available fully-autonomous tractor.

The AgBot has been bought by AMRC Cymru, having been developed by agricultural tech company AgXeed as a smaller, lighter and more efficient tractor unit, which can run non-stop and unsupervised for up to 23 hours.





## Canlyniadau Addysg Uwch Rhagorol i Grŵp Llandrillo Menai yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr

Cafodd Grŵp Llandrillo Menai sgôr ardderchog o 89% am foddhad myfyrwyr ag ansawdd y ddarpariaeth Addysg Uwch yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) diweddaraf - gan ddod i'r brig fel y darparwr gorau yng Nghymru.

Gofynnwyd 28 cwestiwn i fyfyrwyr am yr addysgu ar eu cwrs, y cymorth academaidd, yr asesiadau ac adborth, a'r adnoddau dysgu - a sgoriodd grŵp y coleg yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ym mhob cwestiwn.

## Outstanding Higher Education Results for Grŵp Llandrillo Menai in National Student Survey

Grŵp Llandrillo Menai's student satisfaction for the quality of its Higher Education provision has been scored at 89% in the latest National Student Servey (NSS) - ranking the college as the top provider in Wales.

Students were asked 28 questions about the teaching on their course, academic support, assessments and feedback, and learning resources - and GLLM scored above the UK average in every question.



## Enillydd 'Aldi's Next Big Thing' yn canmol cefnogaeth y Ganolfan Technoleg Bwyd

Defnyddiodd Gareth Griffith-Swain y ganolfan am y tro cyntaf y llynedd ar gyfer profion hyd oes silff ac i gael hyfforddiant diogelwch bwyd pwrpasol trwy Brosiect HELIX, cyn cymryd rhan yn Aldi's Next Big Thing.

O ganlyniad i'r sioe ar Channel 4, enillodd sylfaenydd Fungi Foods gytundeb i gyflenwi mwy na 1,000 o siopau Aldi ar draws y Deyrnas Unedig.

Ar ôl ennill y cytundeb, dychwelodd y gŵr 33 oed i'r Ganolfan Technoleg Bwyd, gan rentu'r neuadd paratoi bwyd am chwe mis er mwyn iddo allu cynhyrchu'r madarch Pigau Barfog sych ar raddfa ddiwydiannol.

## Aldi's Next Big Thing winner used Food Technology Centre to fill supermarket order

Gareth Griffith-Swain first used the centre for shelf-life testing and bespoke food safety training through Project HELIX last year, before taking part in Aldi's Next Big Thing.

The founder of Fungi Foods won a contract to supply more than 1,000 Aldi stores across the UK through the Channel 4 show.

After winning the contract, the 33-year-old returned to the Food Technology Centre, renting out the food preparation hall for six months so he could produce his dried Lion's Mane mushroom on an industrial scale.




## Cyfarwyddwr Sgiliau a Datblygu Dwyieithrwydd yn tynnu sylw at ddatblygiadau technolegol Grŵp Llandrillo Menai mewn cynhadledd genedlaethol

Rhoddodd Angharad Roberts gyflwyniad ar ddefnydd arloesol Grŵp Llandrillo Menai o dechnoleg yn dilyn cyfnod Covid-19. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg i wella addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau.

Roedd ei chyflwyniad yn esbonio defnydd arloesol y Grŵp o dechnoleg yn dilyn Covid-19 a sut y mae wedi dangos y ffordd i weddill y sector. Manylodd ar y diweddariadau a wnaed i lwyfannau dysgu ar-lein er mwyn gwella hygyrchedd a'r camau a gymerwyd i ddileu'r bwlch digidol trwy roi gliniadur neu gyfrifiadur llechen i bob myfyrwyr ac aelod staff.

## Director of Learning Resources and Skills highlights Grŵp's tech advancements at national conference

Angharad Roberts presented Grŵp Llandrillo Menai's innovative and sector-leading use of technology following the Covid-19 pandemic at the conference. The event focused on leveraging technology to enhance bilingual and Welsh medium education within higher education, further education, and apprenticeship sectors.

Angharad's presentation outlined the Grŵp's innovative and sector-leading use of technology post-Covid-19. She detailed the upgrades to online learning platforms aimed at improving accessibility and the initiative to equip both students and staff with laptops or tablets, effectively bridging the digital divide.

# EIN RÔL MEWN CYMRU GYNALIADWY
# OUR ROLE IN A SUSTAINABLE WALES

## Coleg Glynllifon ar flaen y gad o ran ymchwil amaethyddol

Cafodd tractorau yng Ngholeg Glynllifon eu hôl-ffitio ag electroleiddiwr hydrogen er mwyn archwilio ffyrdd o ddod o hyd i danwydd gwyrddach ar gyfer y dyfodol.

## Coleg Glynllifon at the forefront of agricultural research

Tractors at Coleg Glynllifon were retrofitted with a hydrogen electrolyser to explore ways of finding a greener fuel for the future.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Grŵp Llandrillo Menai'n Dathlu ei Gyfraniad i Addysg Ddwyieithog yng Nghymru

Grŵp Llandrillo Menai yw'r darparwr addysg dwyieithog ôl-16 mwyaf yn y wlad, ac mae wedi bod yn allweddol i'r gwaith o lunio'r tirlun addysgol drwy ddatblygu a hyrwyddo amgylchedd dysgu dwyieithog.

Mae mwyafrif y dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn cwblhau eu hastudiaethau'n ddwyieithog, ac yn ystod 2022-23 darparodd GLlM 53,617 awr o addysg ddwyieithog.

## Grŵp Llandrillo Menai Celebrates Contributions to Bilingual Education in Wales

With a proud distinction of being the largest provider of post-16 bilingual education in the country, Grŵp Llandrillo Menai has been instrumental in shaping the educational landscape by developing and promoting a bilingual learning environment.

The majority of Welsh-speaking learners complete their studies bilingually, which resulted in GLLM delivering 53,617 hours of bilingual education during 2022-23.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Darlithydd o'r coleg yn teithio i India i rannu ei wybodaeth am gerbydau trydan

Ymwelodd Paul Griffith, darlithydd yng Ngholeg Menai, ag India yn y gobaith o fynd i'r afael â'r bwlch mewn sgiliau cerbydau trydan (EV) yn y wlad. Mae wedi helpu i redeg cyrsiau technoleg cerbydau trydan yn India yn y gorffennol, a bellach, trwy bartneriaeth rhwng Grŵp Llandrillo Menai a Grŵp Colegau NPTC, mae'n gobeithio rhoi hwb i hyfforddiant ym maes cerbydau trydan a lleihau llygredd yn y wlad.

## Lecturer Paul hopes to plug EV skills gap in India

Coleg Menai lecturer Paul Griffith visited India in hopes of addressing the electric vehicle (EV) skills gap in the country. He has previously helped run EV technology courses in India, and now, through a partnership between Grŵp Llandrillo Menai and NPTC college group, hopes to boost EV training and reduce pollution in the country.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Brighter Futures yn anelu at ddyfodol gwyrdd, diolch i Busnes@LlandrilloMenai

Mae elusen Brighter Futures yn y Rhyl yn cymryd camau breision tuag at gynaliadwyedd diolch i gefnogaeth gan Academi Ddigidol Werdd Busnes@LlandrilloMenai.

Sefydlwyd Brighter Futures yn 2018 i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, unigrwydd a thlodi. Mae eu canolfan mewn hen dafarn yn ganolbwynt i'r gymuned, ac yn cynnal grwpiau a gweithgareddau amrywiol.

Mae'r elusen yn cydweithio â'r Academi Ddigidol Werdd, rhaglen a gynigir drwy Busnes@LlandrilloMenai, i archwilio ffyrdd o leihau eu defnydd o ynni, lleihau eu heffaith amgylcheddol a chyrraedd allyriadau carbon sero net.

## Brighter Futures striving towards a greener tomorrow thanks to Busnes@LlandrilloMenai

Rhyl charity Brighter Futures is making strides towards sustainability thanks to support from Busnes@LlandrilloMenai's Green Digital Academy.

Brighter Futures was founded in 2018 to address social isolation, loneliness, and poverty. Its base in a former pub serves as a focal point for the community, hosting various groups and activities.

The charity has teamed up with the Green Digital Academy to explore ways to reduce its energy use, lessen its environmental impact and reach net zero carbon emissions.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

## Manon yn cael ei dewis ar gyfer Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol

Mae Manon Awst, cyn-fyfyriwr yng Ngholeg Menai wedi ei dewis ar gyfer Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol 2023-25.

Mae Manon yn un o wyth artist a ddewiswyd ar gyfer prosiect a fydd yn archwilio effaith newid hinsawdd ar ein bywydau o ddydd i ddydd.

Cafodd pob artist grant o £25,000 i dreulio 16 mis yn ymgymryd ag ymchwil creadigol ar y thema 'cysylltiad â natur'.

## Past student Manon selected for Future Wales Fellowship

Former Coleg Menai student Manon Awst was selected for the Future Wales Fellowship 2023-25.

Manon was one of eight artists chosen for the scheme, which supports them to look at the impact climate change has on everyday life.

Each artist received a grant of £25,000 to spend 16 months undertaking creative research on the theme of 'connection to nature'.



# EDRYCH YN ÔL
# IN REVIEW






**Paul Flanagan**
Pennaeth,
Coleg Llandrillo
Principal,
Coleg Llandrillo

Coleg
Llandrillo

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Coleg Llandrillo wedi profi newid arwyddocaol, llwyddiannau a chynnydd sylweddol wrth i ni barhau i ddarparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant rhagorol i'n dysgwyr, cefnogi ein cymunedau, a chryfhau partneriaethau gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid.

Gwelwyd cynnydd mewn cofrestriadau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, ac mewn addysg uwch ar Lefel 4. Mae hyn oll yn pwysleisio ein cysylltiad cynyddol â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'r ddarpariaeth amrywiol o ansawdd uchel mae'r coleg yn ei gynnig, sydd hefyd yn bodloni gofynion economi sy'n newid yn barhaus ac anghenion dysgwyr.

Mae ein Canolfan Beirianneg o'r radd flaenaf yn y Rhyl, a agorwyd yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru ym mis Chwefror 2024, eisoes wedi cyfrannu at gynnydd o 36% yng nghyfanswm y cofrestriadau ar y campws. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 19% mewn cofrestriadau peirianneg, gan gadarnhau safle'r Rhyl fel Canolfan Ragoriaeth. Mae cydweithio gyda Sefydliad Albert Gubay ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn allweddol ac wedi ein galluogi i barhau i ehangu ein darpariaeth yn y sectorau cerbydau modur, adeiladu, teithio, twristiaeth a lletygarwch

Mae llwyddiant ein dysgwyr yn parhau i fod yn ganolog i'n cenhadaeth. Eleni, cafwyd cyfradd lwyddo o 100% yn ein cyrsiau Lefel A, gyda 24 o ddysgwyr yn sicrhau lleoedd mewn prifysgolion sy'n perthyn i Grŵp Russell yn ogystal â thri yn symud ymlaen i ysgol feddygol - yr uchaf yn ein hanes. Rhagorodd dysgwyr galwedigaethol hefyd, gyda 13% yn ennill y graddau rhagoriaeth uchaf. Roedd ein canlyniadau addysg uwch yr un mor drawiadol; gwnaethom sicrhau sgôr boddhad cyffredinol o 89% yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, gan ragori ar feincnodau'r DU ym mron pob categori a'n gosod ni fel y darparwr Addysg Uwch â'r sgôr orau yng Nghymru yn ôl myfyrwyr.

Roedd cynhwysiant ac ymgysylltiad cymunedol yn flaenoriaethau i ni; amlygwyd hyn yn ein digwyddiad agored llwyddiannus yn y Rhyl a groesawodd dros 550 o fynychwyr ac a ddangosodd ein cysylltiad â'r gymuned. Ar yr un pryd, gwnaeth ein partneriaethau gyda chyflogwyr ein galluogi i gynnig rhaglenni arloesol; er enghraifft, gwnaethom gyflwyno rhaglen Ymarfer Gofal Iechyd Lefel 4 i dros 100 o ddysgwyr ledled Cymru gyfan.

Wrth inni symud ymlaen, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar feithrin rhagoriaeth, cefnogi llwyddiant dysgwyr, a chryfhau ein heffaith ar yr economi a'r gymdeithas.

The past year has been one of significant change, achievement and progress for Coleg Llandrillo as we continue to deliver outstanding education and training opportunities for our learners, support our communities, and strengthen partnerships with employers and stakeholders.

Coleg Llandrillo has seen increased enrolments across further education, work-based learning, and higher education at Level 4. This demonstrates our growing connection with the communities we serve and the high-quality, diverse offer of the college, which meets the requirements of an ever-changing economy and the needs of learners.

Our state-of-the-art Engineering Centre in Rhyl, officially opened by the First Minister of Wales in February 2024, has already contributed to a 36% increase in total enrolments at the campus. This includes a 19% rise in engineering enrolments, cementing Rhyl's position as a Centre of Excellence. Key collaborations with the Albert Gubay Foundation and Ambition North Wales will further enhance our provision in the motor vehicle, construction, travel, tourism, and hospitality sectors.

The success of our learners remains central to our mission. This year, we celebrated a 100% A-Level pass rate, with 24 learners securing places at Russell Group universities and three progressing to medical school - the highest in our history. Vocational learners also excelled, with 13% achieving top distinction grades. Our higher education outcomes were equally impressive; securing an overall satisfaction score of 89% in the National Student Survey, surpassing UK benchmarks in nearly all categories and placing us as the best-rated Higher Education provider in Wales according to students.

Inclusion and community engagement have been priorities, highlighted by our successful open event in Rhyl which welcomed over 550 attendees and showcased our link with the community. Meanwhile, our partnerships with employers have enabled innovative programmes; for example, we delivered a Level 4 Healthcare Practice programme to over 100 learners who successfully completed across all of Wales.

As we move forward, our focus remains on fostering excellence, supporting learner success, and strengthening our impact on the economy and society.







**Dr Siôn Peters-Flynn**
Pennaeth, Coleg Menai
a Choleg Meirion-Dwyfor
Principal, Coleg Menai
and Coleg Meirion-Dwyfor

Coleg
**Menai**

Parhaodd llwyddiant a phoblogrwydd Coleg Menai yn 2023-24. Agorodd ein campws newydd ym Mangor ei ddrysau i staff a dysgwyr ym mis Awst. Mae'r cyfleuster newydd o'r radd flaenaf ym Mharc Menai wedi cael cymeradwyaeth frwd gan ddysgwyr, aelodau staff a'r gymuned ehangach. Diolch i fuddsoddiad sylweddol gan raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, mae'r campws newydd gwerth £20m wedi dyrchafu ystâd Coleg Menai ymhellach. Mae'n gartref i ddeg maes galwedigaethol ledled y diwydiannau gwasanaethu, y celfyddydau a'r cyfryngau, cyfrifiadura a datblygu gemau, yn ogystal â chyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a Mynediad i Addysg Uwch.

Unwaith eto eleni, cafodd ein dysgwyr fudd o gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys cystadlaethau World Skills, prosiectau cymunedol, profiad gwaith ac ymweliadau tramor. Teithiodd ein dysgwyr peirianneg i Chicago i greu cysylltiadau trawsatlantig gyda myfyrwyr Americanaidd a dysgu am dreftadaeth beirianyddol a datblygiadau technolegol yr ardal. Cafodd ein dysgwyr Teithio a Thwristiaeth brofiad uniongyrchol o'r diwydiant yn Barcelona, ac aeth ein dysgwyr Arlwyo i'r Eidal i ddysgu am y bwyd a'r diwylliant. Bu nifer o'n dysgwyr hefyd yn gweithio gyda sefydliadau lleol megis Cyngor Tref Biwmares, Galeri, Pontio, Intec, Bangor 1876 ac eraill. Cafodd ein dysgwyr hefyd y cyfle i gwrdd â rhai cyn-ddysgwyr llwyddiannus gan gynnwys Cogydd Gweithredol Clwb Pêl-droed Manchester City.

Cipiodd Evan Klimaszewski fedal Aur yn rowndiau terfynol WorldSkills UK ym Manceinion yn y categori electroneg ddiwydiannol a llwyddodd Siôn Elias a Peter Jenkins i ennill medal Arian yn y categori roboteg ddiwydiannol. Roedd tri o'n dysgwyr yn rhan o dîm pêl-droed dan 18 Ysgolion Cymru a gurodd Lloegr ar giciau o'r smotyn i ennill twrnamaint Caput Mundi yn Rhufain. Dewiswyd Martha Grant, dysgwr Celf a Dylunio Lefel 3, i arddangos ei gwaith yn Arddangosfa Greadigol UAL Origins yn Llundain. Roedd Martha yn un o nifer fechan o artistiaid a ddewiswyd o blith miloedd lawer o geisiadau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Bu'n fraint fel y pennaeth newydd i gael profi'r balchder a deimlir ym mhob rhan o gymuned Coleg Menai yn llwyddiannau a datblygiad ehangach ein dysgwyr.

Coleg Menai's success and popularity continued in 2023-24. Our highly anticipated new Bangor Campus opened its doors to staff and learners in August. The new state-of-the-art facility on Parc Menai was met with enthusiastic approval from learners, staff members and the wider community. Supported by significant investment from the Welsh Government's Sustainable Communities for Learning Programme, the new £20m campus enhances Coleg Menai's estate, hosting ten vocational areas across the service industries, arts and media, computing and games development, as well as English for Speakers of Other Languages (ESOL) and Access to Higher Education courses.

Again this year, learners benefited from a wide range of extra-curricular activities, including World Skills competitions, community projects, work experience and visits abroad. Engineering learners travelled to Chicago to forge transatlantic links with American students and learn about the area's engineering heritage and technological developments. Travel and Tourism learners had first-hand experience of the industry in Barcelona, and Catering learners went to Italy to learn about the cuisine and culture. A number of learners worked with local organisations such as Beaumaris Town Council, Galeri, Pontio, Intec, Bangor 1876 and others. Learners also met some of our high-achieving former learners such as the executive chef at Manchester City Football Club.

At the WorldSkills UK finals in Manchester, Evan Klimaszewski won Gold in the industrial electronics category whilst Siôn Elias and Peter Jenkins claimed Silver for industrial robotics. Three of our learners were part of the Welsh Schools under-18s football team who beat England on penalties to win the Caput Mundi tournament in Rome. Martha Grant, a Level 3 Art and Design learner, was selected to exhibit her work at the UAL Origins Creative Exhibition in London. Martha was one of a small number of artists chosen from many thousands of entries from across the whole of the United kingdom.

As the new principal, it has been a privilege to experience the pride that is felt across the Coleg Menai community in the successes and wider development of our learners.







**Dr Siôn Peters-Flynn**
Pennaeth, Coleg Menai
a Choleg Meirion-Dwyfor
Principal, Coleg Menai
and Coleg Meirion-Dwyfor

Coleg
Meirion
Dwyfor

Diolch i ymroddiad ein hathrawon a'n staff cymorth, manteisiodd llawer o'n dysgwyr ar brofiadau a gweithgareddau ychwanegol a drefnwyd yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â phrofi llwyddiant ar eu cyrsiau, rhagorodd sawl dysgwr mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Dewiswyd Cadi Rodgers a Mared Griffiths i ymuno â charfan pêldroed merched Cymru; enillodd Ned Pugh Wobr Gwella Rhifedd Ariannol Cwmni Anrhydeddus Lifrau Cymru, a llwyddodd ein myfyrwyr Peirianneg i gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth F1 mewn Ysgolion. Yn ogystal, dewiswyd gwaith ffotograffiaeth Oskar Jones ar gyfer arddangosfa Origins Creatives 2024 yn Llundain; ymunodd David Bisseker â Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru; daeth ein dysgwyr Astudiaethau Busnes yn ail yng nghystadleuaeth Sgiliau Cymraeg, ac enillodd Euron Jones wobr Grŵp Llandrillo Menai am 'Entrepreneur y Flwyddyn'.

Bu dysgwyr Lefel A Cymraeg yn mireinio eu sgiliau ysgrifennu o dan arweiniad rhai o brif lenorion Cymru. Braf oedd gweld dysgwyr yr adran yn mynd ymlaen i ennill 37 o wobrau mewn eisteddfodau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys ennill dau gategori rhyddiaith dan 25 oed yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn.

Mae'r gydberthynas rhwng y coleg ac ysgolion yr ardal yn parhau i fod yn hynod bwysig i ni; roedd ein dyddiau pontio yn llwyddiannus iawn eto eleni. Hefyd, cynhaliwyd ymweliadau a sesiynau blasu ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd, a bu cystadlu brwd ymhlith plant ysgolion cynradd fel rhan o Glwb Codio'r coleg.

Yn ystod yr haf, cafodd y llyfrgell ar ein campws ym Mhwllheli ei drawsnewid yn ofod modern a hygyrch i'n dysgwyr. Roedd hefyd yn wych i weld ein gweledigaeth ar gyfer campysau Dolgellau a Phwllheli yn parhau i ddatblygu.

Bu'n fraint fel y pennaeth newydd i gael profi'r balchder a deimlir ym mhob rhan o gymuned Coleg Meirion-Dwyfor yn llwyddiannau a datblygiad ehangach ein dysgwyr.

Thanks to the dedication of teachers and support staff, many of our learners took advantage of the experiences and additional activities provided for them during the year. As a result, as well as experiencing success on their courses, several learners excelled in national or international competitions.

Cadi Rodgers and Mared Griffiths were chosen to join the Welsh women's football squad; Ned Pugh won the Worshipful Livery Company of Wales' Financial Numeracy Improvement Award; and our Engineering students reached the final round of the F1 competition in schools. In addition, Oskar Jones' photography work was selected for the Origins Creatives 2024 exhibition in London; David Bisseker was chosen to join the National Youth Brass Band of Wales; Business Studies learners won second prize in the Welsh Skills Competition, and Euron Jones won Grŵp Llandrillo Menai's award for 'Entrepreneur of the Year'.

A Level Welsh learners refined their writing skills under the guidance of some of Wales' leading writers. It was fantastic to see the department's learners go on to win 37 awards in national or local eisteddfods, including winning two under-25 prose categories at the Maldwyn Urdd Eisteddfod.

The relationship between the college and the area's schools remains a very important element for us; our transition days were extremely valuable again this year. In addition, visits and taster sessions were held for secondary school pupils, and there was keen competition among primary school children as part of the college's Coding Club.

During the summer the library at the Pwllheli site was transformed into a modern and accessible space for our learners. We were also excited to see our vision for the Dolgellau and Pwllheli campuses continue to develop.

As the new principal, it has been a privilege to experience the pride that is felt across the Coleg Meirion-Dwyfor community in the successes and wider development of our learners.





**Gwenllian Roberts**
Uwch Gyfarwyddwr - Datblygiadau Masnachol
Executive Director - Commercial Development

# Busnes@ LlandrilloMenai

Rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall yn canolbwyntio ar ddarparu dysgu seiliedig ar waith sy'n diwallu anghenion economi gogledd Cymru. Dechreuodd 1,372 o ddysgwyr ar brentisiaeth yn 2023-24 ac rydym wedi parhau i weithio gyda chyflogwyr i ddiwallu eu hanghenion. Parhaodd ein partneriaeth gyda Babcock i fynd o nerth i nerth, gyda chwmpas y ddarpariaeth hyfforddiant awyrennol arbenigol yn RAF Fali wedi ehangu ymhellach. Gwnaethom hefyd arloesi gyda'n darpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd a ddarperir ar sail Cymru gyfan.

Cefnogodd Busnes@LlandrilloMenai unigolion gyda dilyniant gyrfa mewn sawl sector gwahanol, gan gynnwys yn y sector chwaraeon a'r sector creadigol, y gwasanaeth tân a pheiriannau trwm. Cefnogodd ein contract Cyfrifon Dysgu Personol 949 o ddysgwyr trwy gynnig cefnogaeth i'w galluogi i symud ymlaen i gyflogau uwch. Gwnaeth ein prosiect Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru hefyd gefnogi 137 o fusnesau a 380 o weithwyr yng ngogledd orllewin Cymru.

Rhagorodd ein Canolfan Technoleg Bwyd, sy'n cyflawni Prosiect HELIX Llywodraeth Cymru, ar bob targed gan gynnwys creu 296 o swyddi, diogelu 1245 o swyddi, cynorthwyo 219 o fusnesau newydd a chael effaith ariannol o £190 miliwn. Mae'r ffaith bod tîm y Ganolfan wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categori 'Datblygiad Lleol' yng ngwobrau nodedig 'European Innovation in Politics Award 2024' yn tystio i'w gwaith caled.

Cafodd ein prosiectau addas i'r sector hefyd flwyddyn ddylanwadol. Rhagorodd Hyfforddiant Sero Net  Gwynedd , sy'n cefnogi sgiliau datgarboneiddio ac ôl-osod tai, ar bob targed. Gwnaeth prosiect yr Academi Ddigidol Werdd gefnogi 175 o fusnesau yn y rhanbarth i gynyddu eu defnydd o dechnolegau digidol newydd, cyflymu effeithlonrwydd, lleihau eu dibyniaeth ar garbon a lleihau costau.

Roedd hefyd yn flwyddyn gyffrous i Glynllifon, gyda'r dysgwyr yn perfformio'n dda ac yn cyflawni cyfraddau llwyddiant rhagorol. Mwynhaodd ein dysgwyr ystod o ymweliadau addysgol, ynghyd â dau drip preswyl i Telford a Berlin. Gwnaeth y Ganolfan Technoleg Bwyd a Glynllifon ymgysylltu â sawl ysgol i annog mynediad i'r diwydiant bwyd a diod yn ogystal â gweithio gyda mentrau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol i wneud cyfraniad cadarnhaol yn ein cymunedau. Llwyddodd ein prosiect Cynllun Talent Twristiaeth i gyrraedd dros 1,000 o ddisgyblion uwchradd o 27 o ysgolion ledled gogledd Cymru gan arddangos cyfleoedd gyrfa yn y sector twristiaeth a lletygarwch.

We've had another successful year focused on delivering work-based learning that meets the needs of the north Wales economy. 1,372 learners started an apprenticeship in 2023-24 and we've continued to work with employers to meet their needs. The Babcock partnership continues going from strength to strength to expand the scope of specialist aeronautical training provision at RAF Valley, and we have pioneered a new Health & Social Care provision delivered on a pan-Wales basis.

Busnes@LlandrilloMenai has supported individuals with career progression across sectors, from sports to creative, the fire service and heavy plant machinery. Our Personal Learning Accounts (PLA) contract has supported 949 learners, with support enabling learners to progress to higher salaries, and the Employer Skills North Wales project has supported 137 businesses and 380 employees in North West Wales.

Our Food Technology Centre, delivering the Welsh Government's Project HELIX, has exceeded all targets including creating 296 jobs, safeguarding 1,245 jobs, assisting 219 new business start-ups and making a financial impact of £190 million. Testament to this team's impact was making the shortlist at the prestigious European Innovation in Politics Award 2024 in the 'Local Development' category.

Our sector specific projects have also had an impactful year. Hyfforddiant Net Sero Gwynedd, which supports decarbonisation and housing retrofit skills, has exceeded all targets. The Green Digital Academy project has supported 175 businesses in the region to grow their use of new digital technologies, accelerate efficiency, reduce their reliance on carbon and reduce costs.

It's also been an exciting year for Glynllifon, where learners have performed well and achieved excellent success rates. Our learners have enjoyed a range of educational visits, along with two residential programmes to Telford and Berlin. The Food Technology Centre and Glynllifon have engaged with several schools to encourage entry into the food and drink industry and worked with social enterprises and voluntary organisations to make a positive contribution in our communities. Our Tourism Talent Pathfinder project has reached over 1,000 secondary school pupils from 27 schools across North Wales to showcase career opportunities in the tourism and hospitality sector.






**Sharon Bowker**
Uwch Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Corfforaethol
Executive Director - Corporate Services

## GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

At ei gilydd, gwelwyd cydgyfnerthiad yng nghyllid y Grŵp yn ystod y flwyddyn gyda gostyngiad yn y gwarged EBITDA i £3.3m (3.8% o incwm). Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad termau real mewn grantiau derbyniadwy gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, cadwodd y Grŵp ei Fesur Perfformiad Ariannol "eithriadol", gyda'r holl rwymedigaethau dyled sy'n weddill yn cael eu talu erbyn mis Gorffennaf 2024.

Galluogodd y sefyllfa ariannol gref i'r Grŵp barhau i fuddsoddi yn ei ystâd. Y gwariant cyfalaf mwyaf a gafwyd yn ystod y flwyddyn oedd £20m+ ar gampws newydd Bangor a agorodd i ddysgwyr ym mis Medi 2024. Roedd hyn yn dilyn cwblhau adeilad Peirianneg y Rhyl y mis Hydref blaenorol. Ar ben y gwariant hwn, prynwyd adeilad newydd ar Stryd Fawr Bangor ar gyfer darparu cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a chwblhawyd mân waith cyfalaf arall ledled y Grŵp.

Yn ogystal â gwariant ar ei ystâd, parhaodd y Grŵp i fuddsoddi yn ei adnoddau a'i offer digidol. Ariannwyd hyn yn rhannol trwy gynllun parhaus Digidol 2030 Llywodraeth Cymru.

Chwaraeodd cynaliadwyedd a'r amgylchedd ran gynyddol bwysig ym mhenderfyniadau caffael a buddsoddi'r Grŵp. Yn ogystal â chynnal achrediad Lefel 5 o ran Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, bu'r Grŵp yn gweithio ar ddatblygu Strategaeth Cynaliadwyedd.

Staff oedd ein hadnodd mwyaf gwerthfawr o hyd, a dyna pam mai buddsoddi mewn Adnoddau Dynol oedd gwariant mwyaf y Grŵp unwaith yn rhagor; yn ogystal â chostau staff uniongyrchol, cafwyd gwariant ar ddarparu buddion staff ychwanegol gan arwain at gynnal cyfraddau cryf cadw staff y Grŵp.

## CORPORATE SERVICES

Overall, the year saw a consolidation of the Grŵp's finances with a reduction in the EBITDA surplus to £3.3m (3.8% of income). This was largely due to a real-term reduction in grants receivable from the Welsh Government. Despite this reduction the Grŵp maintained its "outstanding" Financial Performance Measure, with all remaining debt liabilities being paid off by July 2024.

The strong financial position allows the Grŵp to continue to invest in its estate. The largest capital outlay in the year has been on the £20m+ new Bangor Campus which opened to learners in September 2024. This followed the completion of the Rhyl Engineering building the previous October. Elsewhere, the year saw the purchase of new premises on Bangor High Street that delivers Adult and Community Learning (ACL) provision, as well as other minor capital works around the Grŵp.

In addition to expenditure on its estate, the Grŵp continues to invest in its digital resources and equipment. This is partly funded through the continuing Digital 2030 Welsh Government scheme.

Sustainability and the environment play an increasingly important role in the Grŵp's procurement and investment decisions. As well as maintaining its Level 5 Green Dragon Environmental accreditation the Grŵp has worked on developing a Sustainability Strategy.

Staff remains our most valuable resource, hence why investment in Human Resources remains the biggest expenditure of the Grŵp; and as well as direct staff costs, this also takes the form of provision of additional staff benefits which results in maintaining the Grŵp's strong staff retention rates.







**James Nelson**
Uwch Gyfarwyddwr
- Gwasanaethau Academaidd
Executive Director
- Academic Services

## Y GWASANAETHAU ACADEMAIDD

Cafodd y Gwasanaethau Academaidd flwyddyn ragorol unwaith eto - roedd ein harolygiadau llwyddiannus i Addysg Bellach, ac arolygiadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned Siroedd Conwy a Dinbych gan Estyn yn 2024 yn arbennig o nodedig.

Amlygodd y ddau arolygiad naw arfer ragorol gan gynnwys; ansawdd yr addysgu a'r dysgu dwyieithog, y defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi dysgu, a'r cymorth helaeth a ddarperir i ddysgwyr. Byddwn yn adeiladu ar ein llwyddiant yn yr arolygiadau trwy lansio Prosiect Uchelgais yn 2024, a fydd yn cefnogi'r Grŵp i gyflawni ei genhadaeth o 'Wella Dyfodol Pobl'.

Gwnaethom barhau i fuddsoddi yn Llyfrgell+; mae 'siop un stop' ar gael ar ein campws newydd ym Mangor i ddysgwyr sydd angen cymorth gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sgiliau astudio, lles, llesiant a dysgu digidol. Mae Sgiliaith yn parhau i arwain y ffordd wrth gyflwyno hyfforddiant dwyieithog a Chymraeg i staff, ac wedi arwyddo cytundeb newydd gydag Ysgol Uwchradd Caergybi i ehangu ei ddarpariaeth. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd o 10% yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau TGAU a Llythrennedd hanfodol.

Am y tro cyntaf, gwnaeth ein tîm cefnogaeth ADY rhagorol roi cymorth i ddysgwyr oedd yn symud ymlaen o'r ysgol gyda Chynlluniau Datblygu Annibynnol (CDU). Galluogodd y cymorth hwn ddysgwyr sy'n cael cymorth i gyflawni deilliannau uwch o gymharu â'r rhai na chafodd cymorth yn 2023-24.

Gwnaethom barhau i wella ein gwasanaethau cymorth trwy ein rhaglen Camau Cefnogol a gefnogodd 2978 o ddysgwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24. Roedd ein rhaglen gymorth helaeth yn cynnwys Brecwast Am Ddim, Mentoriaid Cynhwysiant, Mentoriaid Cymorth i Ddysgwyr, Mentoriaid Lles/Llesiant, Cwnsela, a chymorth gan Ymarferwyr Iechyd Meddwl a gydnabuwyd fel arfer ragorol gan Estyn.

Rydym wedi gweld twf flwyddyn ar ôl blwyddyn o 8% yn nifer yr arholiadau a gynhaliwyd; mae symud i archebu arholiadau ar-lein wedi ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i ni ddarparu arholiadau. Mae cyfleuster ar-lein newydd wedi gwella'r broses o greu adroddiadau presenoldeb; gall dysgwyr nawr ddatgan absenoldeb eu hunain.

## ACADEMIC SERVICES

Academic Services has had an excellent year - particularly noteworthy were our successful Further Education, and Conwy & Denbighshire Adult Community Learning inspections by Estyn in 2024.

Both inspections highlighted 9 spotlights of excellent practice including, the quality of bilingual teaching and learning, use of digital technology to support learning, and the extensive support provided to learners. We are building on our inspection success through the launch of Project Ambition in 2024, which will support the Grŵp to achieve its mission of 'Improving People's Futures'.

We have continued to invest in Library Plus with the new Bangor Campus now offering a one-stop shop to learners requiring support with Additional Learning Needs (ALN), study skills, welfare, wellbeing and digital learning. Sgiliaith continues to lead the way in delivering Bilingual Welsh Language staff training, and has signed a new contract with Ysgol Uwchradd Caergybi to broaden its provision. We have also seen a 10% increase in the number of learners undertaking essential GCSE and Literacy courses.

Our excellent ALN support has, for the first time, provided support to learners progressing from school with an Independent Development Plan (IDP). The support has enabled learners receiving support to achieve higher outcomes compared to those who did not in 2023-24.

We continued to improve our support services through our Camau Cefnogol programme which supported 2978 learners during the 2023-24 academic year. Our extensive support programme involved Universal Free Breakfast, Inclusion Mentors, Learner Support Mentors, Welfare/Wellbeing Mentors, Counselling, and Mental Health Practitioner support which was recognised as excellent practice by Estyn.

We have seen year on year growth of 8% in the number of examinations undertaken and the move to online examination bookings has made it easier and quicker for examinations to be delivered. Our attendance reporting has also been enhanced by an online facility for learners to declare absence.

# PENAWDAU ARIANNOL
# FINANCIAL HEADLINES

**Yn strategaeth ariannol y Grŵp, ceir nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a fwriadwyd i sicrhau bod y Grŵp yn parhau'n sefydliad sy'n sefydlog yn ariannol ac sy'n gallu buddsoddi yn ei adnoddau er mwyn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl i'w ddysgwyr. Roedd y Grŵp yn ddiddyled ar 31 Gorffennaf 2024.**

**The Grŵp's financial strategy outlines a number of specified KPIs aimed at ensuring the Grŵp remains a financially stable organisation, able to invest in its resources to provide the best possible learning environment for its learners. As of 31 July 2024 the Grŵp is debt free.**

| Targed DPA<br>KPI target | 2024 Gwir Ganlyniad<br>2024 Actual Result | 2023 Gwir Ganlyniad<br>2023 Actual Result | Asesiad o'r Cyflwr Ariannol<br>Financial Health check Assessment |
|---|---|---|---|
| EBITDA > 4% incwm<br>EBITDA > 4% income | Coleg/College 3.8%<br>Grŵp 4.0% | Coleg/College 7.4%<br>Grŵp 7.2% | ● |
| Cymhareb asedau cyfredol net > 2<br>Net current asset ratio > 2 | Coleg/College 3.59<br>Grŵp 3.71 | Coleg/College 2.71<br>Grŵp 2.77 | ● |
| Benthyca <15% o'r incwm<br>Borrowing <15% of income | Coleg/College 0.0%<br>Grŵp 0.0% | Coleg/College 0.1%<br>Grŵp 0.1% | ● |

Mae'r DPA yn y tabl uchod yn dangos bod y Grŵp yn parhau i fod yn y categori "rhagorol" o ran ei gyflwr ariannol ac wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall.

Mae'r gostyngiad yn y ganran EBITDA o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yng ngwerth gwirioneddol y grantiau gan Lywodraeth Cymru a chynnydd mewn costau, yn enwedig costau staffio, gyda chynnydd yn y cyfraniadau at Bensiynau Athrawon o fis Ebrill 2024 ymlaen.

The KPIs in the table above show the Grŵp has maintained its "outstanding" Financial Health check measure with another successful year.

The reduction in the EBITDA % from last year is largely due to the lower real-terms value of grants received from Welsh Government and increased costs, in particular staffing costs, with the increase in Teachers' Pension contributions from April 2024.

# INCWM A GWARIANT
# INCOME & EXPENDITURE




## GWARIANT
## EXPENDITURE

| 2024 (£,000) | 2023 (£,000) | | |
|---|---|---|---|
| £62,072 | £59,206 | | Costau staffio<br>Staff costs |
| £9,090 | £8,512 | | Costau addysgu nad ydynt yn ymwneud â thâl<br>Teaching non-pay costs |
| £5,714 | £5,322 | | Costau gweinyddu a chostau cyffredinol<br>Administration and general costs |
| £7,610 | £7,037 | | Costau mewn perthynas ag adeiladau<br>Premises costs |
| £2,608 | £2,252 | | Treuliau eraill<br>Other expenses |
| **£87,094** | **£82,329** | | Costau EBITDA y Grŵp<br>**Grŵp EBITDA costs** |
| £10,499 | £7,748 | | Costau nad ydynt yn EBITDA<br>**Non EBITDA costs** |
| **£97,593** | **£90,077** | | Cyfanswm Costau y Grŵp<br>**Total Grŵp Costs** |




## INCWM
## INCOME

| 2024 (£,000) | 2023 (£,000) | | |
|---|---|---|---|
| £48,546 | £47,876 | | Grant rheolaidd yr AdAS<br>DfES recurrent grant |
| £14,453 | £12,588 | | Grant Dysgu Seiliedig ar Waith<br>Work-based learning grant |
| £8,795 | £11,172 | | Incwm o grantiau eraill yr AdAS<br>Other DfES grant income |
| £3,875 | £2,972 | | Ffioedd dysgu<br>Tuition fees |
| £935 | £983 | | Grant rheolaidd CCAUC<br>HEFCW recurrent grant |
| £808 | £1,131 | | Incwm breinio<br>Franchise income |
| - | £3,979 | | Cyllid Ewropeaidd<br>European funding |
| £1,559 | £1,219 | | Incwm arlwyo<br>Catering income |
| £872 | £900 | | Incwm o weithgareddau ffermio<br>Farming activities income |
| £5,289 | £3,050 | | Incwm o grantiau eraill<br>Other grant income |
| £5,577 | £3,153 | | Incwm arall<br>Other income |
| **£90,709** | **£89,023** | | Incwm EBITDA<br>EBITDA income |
| £5,085 | £3,805 | | Incwm nad yw'n EBITDA<br>Non EBITDA income |
| **£95,794** | **£92,828** | | Cyfanswm incwm y Grŵp<br>Total Grŵp income |

## GWARGED YN SGIL GWAREDU ASEDAU SEFYDLOG
## SURPLUS ON DISPOSAL OF FIXED ASSETS

| 2024 | 2023 |
|---|---|
| - | 133 |

## EBITDA (Enillion cyn Llog, Treth, Dibrisiad ac Amorteiddio)
## EBITDA (Earnings before Interest, Taxes, Depreciation and Amortisation)

| 2024 | 2023 | |
|---|---|---|
| £3,615 | £6,694 | Grŵp EBITDA |
| 4.0% | 7.2% | EBITDA fel % o incwm<br>EBITDA as % of income |
| (£1,799) | £2,751 | Gwarged y Grŵp<br>Grŵp Surplus |

Coleg Llandrillo
Llandrillo-yn-Rhos
Conwy LL28 4HZ
01492 546 666

Coleg Meirion-Dwyfor
Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW
01341 422 827

Coleg Menai
Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor LL57 4HJ
01248 370 125

Busnes@LlandrilloMenai
Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor LL57 4HJ
08445 460 460

COPA, Tŷ COPA
Argyll Road, Llandudno
Conwy LL30 1DF
01492 543 431